



# Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

## COFNODION CYFARFOD BWRDD

25 Mai 2017

Swyddfeydd Gofal Cymdeithasol Cymru, Caerdydd  
09:30 – 12:05

### Yn bresennol:

#### Aelodau'r Bwrdd:

Arwel Ellis Owen  
(Cadeirydd)  
Damian Bridgeman  
Emma Britton  
Simon Burch  
Carl Cooper  
Abigail Harris  
Kate Hawkins  
Rhian Watcyn Jones  
Joanne Kember  
Peter Max  
Grace Quantock  
Aled Roberts

#### Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Weithredwr)  
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)  
Joanne Oak (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a  
Strategaeth)  
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau  
Corfforaethol)  
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu)  
Jeni Meyrick (Cofnodion)

#### Yn bresennol:

Andrea Giordano, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Gwella  
Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

## 1. Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

- i. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ac estynnodd groeso yn ôl i Andrea Giordano, sef cyswllt arweiniol y noddwr ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yn Llywodraeth Cymru.
- ii. Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am eu cyfraniadau at drafodaeth ddoe ar y cynllun strategol a nododd y bydd y pwyntiau amlycaf yn cael eu cynnwys yn eitem heddiw ar yr agenda. Nododd y Bwrdd nad yw'r Llythyr Cylch Gwaith wedi cyrraedd eto; fodd bynnag, bydd Andrea Giordano yn rhoi diweddariad ar ei statws yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

## 2. Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

- i. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Donna Hutton, Jane Moore a Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth.

- ii. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant; fodd bynnag, cafodd aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd y dylent amlygu unrhyw wrthdaro buddiannau pe baent yn codi yn ystod y cyfarfod.

### **3. Cofnodion y cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2017 (SCW.17.06)**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir.

### **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

- i. Cafodd y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf ei amlinellu gan y Cadeirydd.

### **Eitem 6– Strwythur Bwrdd a Phwyllgorau Gofal Cymdeithasol Cymru**

- ii. Yn sgil yr argymhelliad i newid enw'r Pwyllgor Ymchwil, Datblygu a Gwella, cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r Pwyllgor Gwelliannau fyddai ei enw bellach. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai papur yn amlinellu strwythur terfynol y pwyllgorau a diben pob pwyllgor yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Bwrdd mis Mehefin neu Orffennaf, a chaiff Cylch Gorchwyl pob pwyllgor ei ddatblygu a'i ddwyn gerbron y Bwrdd er mwyn cytuno arno.
- iii. Nododd aelodau fod Rhian Watcyn Jones eisoes wedi'i phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a bydd Cadeiryddion y pwyllgorau eraill yn cael eu penodi maes o law. Cafodd aelodau eu hannog i fynegi diddordeb mewn bod yn Gadeirydd pwyllgor i Arwel Ellis Owen yn y lle cyntaf.
- iv. Nodwyd hefyd y bydd effaith Brexit yn cael ei hychwanegu at gofrestr risg y sefydliad a'i monitro fel rhan o fusnes y sefydliad o ddydd i ddydd.

### **Eitem 8 – Diweddariad y Prif Weithredwr**

- v. Cafodd y Bwrdd wybod bod adran erbyn hyn yn y llyfrgell ar y porth ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau. Nododd y Cadeirydd y bydd Ceri Williams, Arweinydd Polisi a Materion Cyhoeddus, yn diweddarau'r adran i gynnwys unrhyw ymatebion gan Ofal Cymdeithasol Cymru i ymgynghoriadau perthnasol ac, er bod angen ymateb i nifer o ymgynghoriadau o fewn amserlen gyfyngedig, ychwanegodd fod Aelodau'n cael eu hannog o hyd i gynnig eu cyfraniadau, lle y bo'n bosibl.
- vi. Cafodd aelodau eu hatgoffa bod y cyfarfod Bwrdd blaenorol wedi cytuno y byddai'n well pe bai unigolion, os oeddent yn ymateb i ymgynghoriadau, yn rhannu eu hymateb â Gofal Cymdeithasol Cymru cyn ei gyflwyno.

### **Eitem 11 – Effeithiolrwydd y cyfarfod**

- vii. Mae'r awgrym y dylai unrhyw adroddiadau sy'n cynnwys diagramau gynnwys allwedd at ddiben cyfeirio wedi'i adrodd yn ôl i swyddogion a'i nodi.

- viii. Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaeth y cyfarfod blaenorol ynghylch yr angen am adborth ar strwythur agendâu i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pawb, a nododd nad oedd dyddiad cau ar gyfer rhoi adborth iddo.

## 5. Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

- i. Cafodd y cefndir i'r Côt Ymddygiad (y Côt) a'r polisi cwyno ategol, ei roi i aelodau gan Llinos Bradbury, Uwch Swyddog Llywodraethu.
- ii. Cyfeiriwyd Aelodau at Delerau ac Amodau'r cytundeb penodi a lofnodwyd ganddynt a nododd mai bwriad y Côt oedd ategu hwnnw ac amlinellu ymddygiadau disgwylidig Aelod Bwrdd. Cyfeiriwyd y Bwrdd at adran chwech y Côt, yn ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol, ac os yw unrhyw aelodau'n ansicr ynghylch eu sefyllfa, er enghraifft o ran canfasio neu gymryd rhan mewn trafodaeth gyhoeddus, fe'u hatgoffwyd y dylent ofyn i Gadeirydd neu Ysgrifennydd y Bwrdd am eglurhad.
- iii. Trafododd yr Aelodau y Côt yn fyr ac awgrymwyd y dylid ychwanegu'r gair 'cyfrinachol' at Adran un ar dudalen tri, o dan y pennawd 'Bod yn agored' ('Openness'), er mwyn cadarnhau natur y wybodaeth y dylid ei rhannu os gofynnir am hynny yn ôl y gyfraith.
- iv. Hefyd, argymhellodd y Bwrdd ychwanegu adran at Atodiad A, 'Rheoli cwynion ynghylch Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru', i egluro sut bydd cwynion blinderus yn cael eu rheoli a pha gymorth fyddai'n cael ei ddarparu i aelodau yn y sefyllfa honno.
- v. Cafodd y Côt Ymddygiad a'i atodiad ei **ystyried** a'i **gymeradwyo mewn egwyddor** gan y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth derfynol yn amodol ar yr argymhellion uchod. Nodwyd y câi ychwanegiadau eu gwneud i'r ddogfen ac y câi ei hailddosbarthu i'w chymeradwyo cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. **CAM GWEITHREDU**

## 6. Cynllun Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru: ymgynghoriad

- i. Cyfeiriodd Jo Oak, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth, at y gweithdy a gynhaliwyd fel rhan o seminar sefydlu'r aelodau ddoe ar y cynllun strategol, a phwysleisiodd mai diben y cynllun oedd amlinellu'r amcanion hirdymor a'r blaenoriaethau i Ofal Cymdeithasol Cymru. Hefyd, amlygodd Jo Oak y byddai dull o gyfrannu at ddatblygiad y cynllun strategol ar gael o hyd ar ôl y cyfarfod hwn, cyn ei lansio ym mis Medi.
- ii. Cafodd drafft diweddaedig o'r cynllun a'r egwyddorion sylfaenol, sef y dylai fod yn unigryw, yn ysbrydoledig ac yn creu sgwrs ynghylch ein gwaith, ei gyflwyno i aelodau. Nododd aelodau fod yr awgrymiadau a wnaed yn y gweithdy wedi'u cynnwys yn y crynodebau o'r weledigaeth a'r diben, ond cynigiwyd diwygiadau pellach. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dylid ailgynnwys yr elfen 'beth sy'n bwysig i'r dinesydd' gan ei bod yn awgrymu perchenogaeth
  - Dylid ychwanegu 'ni' – beth mae arnom ni ei eisiau, pa ran fyddwn ni'n ei chwarae, beth fyddwn ni'n dylanwadu arno
  - Mae'n anodd diffinio sut beth yw 'bywyd bodlon'
  - Dylai'r weledigaeth ymestyn y tu hwnt i'n cylch gwaith ni a bod yn rhywbeth i ddyheu amdano
  - Dylid ystyried sut dylem ni gael ein barnu h.y. bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth sy'n bwysig iddyn nhw – fodd bynnag, dyna ran yn unig o'r hyn rydym ni'n ei wneud
  - Dylid ystyried a yw 'meithrin hyder yn y gweithlu' yn cyfyngu – awgrymir 'arwain gwelliant mewn gofal cymdeithasol'
  - Hefyd, awgrymir 'Cefnogi pobl yn eu cymunedau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw'?
- iii. Diolchodd Sue Evans, Prif Weithredwr, i aelodau am eu cyfraniadau, gan gydnabod ei bod hi'n anodd cael consensws tra'n ceisio cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau. Cynigiodd Sue Evans ddirprwyo'r dasg ddylunio i swyddogion, er mwyn adlewyrchu trafodaethau'r aelodau. Caiff y drafft a gyhoeddir er mwyn ymgynghori arno ei rannu ar y porth **CAM GWEITHREDU**. Caiff aelodau gyfle pellach i roi sylwadau wrth i ni aros am adborth gan ein rhanddeiliaid a chyn i ni lunio'r ddogfen yn derfynol.
- iv. Cadarnhawyd mai ymgynghoriad anffurfiol ac ymarfer ymgysylltu fyddai hyn, yn hytrach nag ailysgrifennu'r cynllun, gan adlewyrchu barn aelodau bod angen i ni fod yn feiddgar wrth gyflwyno'n huchelgais. Cyflwynodd Jo Oak y llinellau amser ar gyfer yr ymgynghoriad, a fydd yn cynnwys presenoldeb yng nghynhadledd genedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol, sioeau haf a thargedu rhanddeiliaid allweddol, cyn llunio'r cynllun yn derfynol a'i lansio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus ddiwedd mis Medi.
- v. Fel rhan o ddatblygu'r strategaeth, holodd aelodau a fyddai'r ddogfen hefyd yn cynnwys ymateb i sylwadau'r rhanddeiliaid a, hefyd, a oedd y sail resymegol dros fynychu'r sioeau haf o ganlyniad i nifer y bobl a fyddai'n mynychu neu oherwydd y tebygolrwydd y byddai gweithwyr proffesiynol y sector yn mynychu. Cadarnhaodd Jo Oak y byddai proses grynhoi'r ymgynghoriad yn cynnwys ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, yn gyffredinol, a fyddai'n cael eu rhoi ar y wefan. Y sail resymegol ar gyfer hybu'r ymgynghoriad yn y sioeau haf oedd elwa ar yr ymrwymiad i fynychu Sioe Frenhinol Cymru (23 – 27 Gorffennaf) a'r Eisteddfod Genedlaethol (4 -12 Awst), lle byddai nifer sylweddol o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.
- vi. Yn dilyn cyfeiriad Jo Oak at y sioeau haf, anogodd y Cadeirydd yr aelodau i fynychu'r sioeau haf neu Gynhadledd Genedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llandudno er mwyn eu datblygiad eu hunain ac i gefnogi'r sefydliad. Nodwyd bod y Gynhadledd yn cael ei noddi eleni gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac, yn gyffredinol, ystyrir bod y gynhadledd o bwys mawr i'r sector. Dylai unrhyw aelodau sy'n dymuno mynychu fynegi eu diddordeb i'r Cadeirydd neu i Jeni Meyrick.

- vii. **Cymeradwydd** aelodau'r fframwaith strategol arfaethedig a **dirprwyo** cymeradwyaeth derfynol y ddogfen ymgynghori i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

## 7. Cynllun Busnes 2017-18

- i. Crynhodd y Cadeirydd y gwaith a oedd ynghlwm wrth ddatblygu a llunio fframwaith y cynllun busnes ar gyfer 2017-18 yn derfynol, a wnaeth gynnwys targedau o'r llythyr cylch gwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- ii. Crynhodd Andrea Giordano y rhesymau dros yr oedi cyn bod y llythyr cylch gwaith ar gael, sef oherwydd lefel uchel y diddordeb yng ngwaith y sefydliad a'r gefnogaeth i Ofal Cymdeithasol Cymru ar y lefel Gweinidogol uchaf. Mae'r llythyr cylch gwaith bellach wedi'i gytuno, yn sgil cyfarfod a gynhaliwyd ddoe. O ran ychwanegiadau at y llythyr cylch gwaith, cadarnhawyd na wnaed unrhyw ychwanegiadau; fodd bynnag roedd y geiriad mewn rhai adrannau wedi'i gryfhau, yn enwedig mewn perthynas â mentrau yn gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- iii. Rhoddodd Sue Evans, Prif Weithredwr, drosolwg o'r blaenoriaethau yn y cynllun busnes a rhoddodd y cyd-destun, gan nodi bod y cynllun busnes yn deillio fel arfer o'r cynllun strategol, gan wneud y broses o ddatblygu cynllun eleni yn unigryw. Dywedodd Sue Evans y byddai 2017-18 yn flwyddyn gyfnerthu a thrawsnewid, gan barhau â llawer o waith Cyngor Gofal Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd aelodau mai diben y cynllun oedd rhoi eglurder i reolwyr ynghylch targedau gwaith eu tîm ac amlinellu sut bydd y sefydliad yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir o'r llythyr cylch gwaith.
- iv. Nododd y Bwrdd nad oedd y cynllun yn adlewyrchu lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i fodloni'r amcanion, er enghraifft 'datblygu a chynnal y gofrestr'. Mae'r gweithgaredd hwn ar ben ei hun yn cynnwys y gwaith datblygu gofynnol i baratoi'r sector ar gyfer cofrestru a chymhwysu gweithwyr gofal cartref yn 2018, a datblygiad y gronfa ddata TGCh sy'n ofynnol i gynorthwyo ag ehangu'r Gofrestr. Pwysleisiodd Sue Evans mai ychydig iawn fyddai'n gallu cael ei ddiwygio yn sgil cytuno ar y cynllun busnes blynyddol, gan y byddai'n effeithio ar gyflawni targedau busnes ac nid oedd digon o adnoddau i ymgymryd â gweithgareddau gwaith ychwanegol.
- v. Cyflwynodd Kate Salter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol, fanylion y cynllun busnes i aelodau, sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a thynnu eu sylw i nifer o feysydd â blaenoriaeth, lle y byddai angen adnoddau sylweddol. Crynhodd Kate Salter y cyflwyniad gan amlygu y byddai llinellau amser a gweithgareddau mwy penodol yn cael eu hychwanegu at y cynllun ar ôl cytuno ar y drafft, fel y gall y Bwrdd fonitro cynnydd yn erbyn y targedau ynddo. Atgoffwyd aelodau y byddai seminar sefydlu Mehefin yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg; nod hwn fyddai

pwysleisio sut byddai'r sefydliad yn rheoli risg er mwyn helpu i gyflawni'r gwaith heb rwystro arloesi.

- vi. Cyflwynodd aelodau'r diwygiadau canlynol i'r cynllun busnes:
- Ychwanegu 'arwain a chynorthwyo â gwella gwasanaethau'
  - Cynnwys 'defnyddio data i fonitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd' ond sicrhau y caiff ei bwysleisio ac nad yw'n rhan yn unig o amcan sefydliadol
  - Disgrifio'n benodol sut byddwn yn cyflawni rhannau newydd mewn deddfwriaeth neu fod yn fwy myfyriol o ran beth fydd y gwaith yn ei olygu gan fod gwella / gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhy fras.
  - Arddangos / mynegi effaith y gwaith a sut caiff ei fesur, yn ansoddol ac yn feintiol.
  - Sicrhau bod y naws yn gyson drwy gydol y ddogfen
  - Sicrhau bod digon o eglurder i'n rôl o ran y blaenoriaethau datblygu, yn enwedig lle ceir gorgyffwrdd â blaenoriaethau sefydliadau eraill
- vii. Cyfeiriodd Kate Salter yn ôl at yr adroddiad a phwysleisiodd rôl yr aelodau yn craffu ar waith cyflawni gan swyddogion yn unol â'r cynllun, a myfyrio ar argymhellion David Richards yn seminar mis Ebrill wrth ystyried eu rôl graffu. Cytunodd aelodau â'r awgrym bod ymholiadau sy'n cael eu rhannu ar y porth yn rhai agored a'u bod yn ysgogi sylwadau ychwanegol.
- viii. Fe wnaeth y Bwrdd **drafod a chymeradwyo'r** cynllun busnes drafft a **nodi'r** awgrymiadau. Fe wnaeth Aelodau **ddirprwyo** cymeradwyaeth derfynol y cynllun busnes i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn amodol ar dderbyn y llythyr cylch gwaith.

## 8. Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr

- i. Rhoddodd Sue Evans drosolwg i aelodau o'i hymrwymyiadau diweddar a'r rhai sydd i ddod, gan gynnwys ei gwahoddiad i gymryd rhan mewn panel ar gyfer yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a fyddai'n bwrw golwg ar gyllid, y gweithlu a recriwtio, ac ateb y galw cynyddol am iechyd a gofal, a disgwyliadau'r cyhoedd. Mynegodd aelodau bryder bod yr adolygiad Seneddol yn troedio'r un tir ac yn canolbwyntio'n ormodol ar y GIG. Cydnabu Sue Evans bryderon aelodau ac amlygu bod y panel adolygu wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau mynych o'r sector gofal cymdeithasol. Roedd Sue Evans yn aelod o'r is-grŵp a byddai'n rhoi diweddariadau i aelodau ar gynydd. Nododd aelodau fod dogfennau ar gael erbyn hyn er mwyn rhoi sylwadau ar yr Adolygiad Seneddol, trwy wefan bwrsasol.
- ii. Nododd aelodau fod Sue Evans hefyd wedi mynychu digwyddiad gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Coleg Nyrsio Brenhinol i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys dirprwyo tasgau gofal iechyd, timau integredig a'r heriau sy'n codi o reoleiddio amrywiol a diffyg model llywodraethu unigol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Ychwanegodd Sue Evans fod cyfle i Gymru ddangos arweinyddiaeth yn y maes hwn.

- iii. Ychwanegodd Sarah McCarty, Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu, fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyfrannu at weithdy gan Wasanaeth Addysg a Datblygiad Gweithlu'r GIG i drafod dirprwyo tasgau gofal iechyd a cheisio unioni rhai o'r camsyniadau yn y maes hwn. Cydnabu aelodau fod hwn yn faes yr oedd y Cyngor blaenorol wedi'i amlygu a cheisio'i hyrwyddo, a chynigiwyd y dylai'r Bwrdd hwn ddefnyddio'i ddylanwad a manteisio ar unrhyw gymorth posibl gan y Gweinidog i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- iv. Daeth Sue Evans â'i diweddariad i ben trwy nodi y byddai'n mynychu cynhadledd sefydlog Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain ym mis Mehefin, pan fyddai'r gwledydd datganoledig yn dod ynghyd i drafod polisiau lle y byddai cysondeb ar draws ffiniau yn cefnogi'r sector gwaith cymdeithasol. Dywedodd aelod â chefnidir mewn gwaith cymdeithasol y byddai cysondeb mewn polisiau i alluogi gweithwyr cymdeithasol i weithio ar draws y DU yn cael ei groesawu gan y sector.
- v. Rhoddodd Sarah McCarty ddiweddariad gan ei Chyfarwyddiaeth Gwella a Datblygu, gan roi gwybod i'r Bwrdd ei bod hi'n amser prysur ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn sgil ymgynghori â nhw ar y fframwaith i wella recriwtio, lefelau cadw a datblygiad gyrfaal mewn gofal cymdeithasol, a'r cynllun gweithredu gofal a chymorth. O ran y cynllun gweithredu gofal a chymorth, nodwyd y bu presenoldeb da mewn grŵp llywio diweddar i ddatblygu'r cynllun ac roedd ffyrdd o gefnogi menter ymgysylltu ehangach yn cael eu harchwilio, er enghraifft datblygu pecynnau cymorth i randdeiliaid gynnal eu digwyddiadau eu hunain. Nododd y Bwrdd y byddai'r cynllun gweithredu i ategu'r strategaeth gofal a chymorth gartref yn cael ei lansio ym mis Medi fel rhan o lansio'r Cynllun Strategol.
- vi. Rhoddodd Jo Oak wybod i'r Bwrdd fod swyddogion yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu dogfen ymgynghori ar reoleiddio i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun ar reoliadau deddfwriaethol. Ychwanegodd Jo Oak fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ynghylch strwythurau llywodraethu cyrff datganoledig i amlygu anghysondebau a rhannu arfer gorau.
- vii. Fe wnaeth yr aelodau **nodi a derbyn** y diweddariadau.

## 9. Gwerthusiad o effeithiolrwydd y cyfarfod

- i. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd myfyrio ar gyfraniadau aelodau eu hunain yn ogystal â chyfraniadau cyfunol, gan wahodd sylwadau gan y Bwrdd ar effeithiolrwydd y cyfarfod ac ansawdd y papurau, ynghyd â seminar ddoe.
- ii. Dywedodd aelodau fod y strwythur deuddydd wedi bod yn ddiddorol, yn addysgiadol ac wedi'i reoli'n dda.

- iii. Cytunodd y Bwrdd fod y papurau yn ddealladwy a bod y wybodaeth yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Teimlai aelodau eu bod yn gallu cyfrannu'n gyfartal.

## 10. Negeseuon i'w cyfleu

- i. Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd aelodau i amlygu pa eitemau o'r cyfarfod y dylid eu dwyn i sylw'r cyhoedd fel rhan o'n cyfathrebiadau ynghylch cyfarfod y Bwrdd. Cynigiwyd y canlynol:
- Bu trafodaeth ynghylch gweledigaeth a diben y sefydliad ac edrych tua'r dyfodol. Roedd gan aelodau amrywiaeth o safbwyntiau ac roeddent yn unedig ar themâu allweddol.
  - Roedd effaith cyfarfod y Gweinidog a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol â'r Bwrdd wedi helpu i lunio syniadau.
  - Roedd pwyslais ar y posibilrwydd i randdeiliaid gael dweud eu dweud dros yr haf ar sawl un o'n meysydd gwaith.
  - Roedd hi'n galonogol i aelodau glywed cefnogaeth y Gweinidog i'n gwaith, gweledigaeth a gwerthoedd.
  - Roedd pwyslais ar bwysigrwydd gweledigaeth a pherchenogaeth yn natblygiad cynlluniau, nid dim ond y sefydliad yn gorfodi ei syniadau.

Cam gweithredu	Pwy
<p><b>Eitem 5 Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru</b> Nodwyd y câi ychwanegiadau eu gwneud i'r Côt Ymddygiad a'r atodiad ac y caent eu hailddosbarthu i'w cymeradwyo cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>	Jeni Meyrick
<p><b>Eitem 6 – Cynllun Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru: ymgynghoriad</b> Cynigiodd Sue Evans ddirprwyo'r dasg ddylunio i swyddogion, er mwyn adlewyrchu trafodaethau'r aelodau. Caiff y drafft a gyhoeddir er mwyn ymgynghori arno ei rannu ar y porth.</p>	Jo Oak